Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2025 Rhif 285 (Cy. 57)

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## Rheoliadau’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2025

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw’r nodyn hwn yn rhan o’r Rheoliadau)*

Mae’r Rheoliadau hyn yn diwygio dwy set o Reoliadau sy’n gwneud darpariaeth ynghylch gwasanaethau fferyllol, ac mewn cysylltiad â’r gwasanaethau hynny.

Mae rheoliad 2 yn diwygio Rheoliadau’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020 ac mae rheoliad 3 yn diwygio Rheoliadau’r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) (Diwygio) 2024.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â’r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o’r costau a’r manteision sy’n debygol o ddeillio o gydymffurfio â’r Rheoliadau hyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2025 Rhif 285 (Cy. 57)

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2025

*Gwnaed* *5 Mawrth 2025*

*Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* *7 Mawrth 2025*

*Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1(2) a (3)*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 15, 80, 104 a 203(9) a (10) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

**Enwi a dod i rym**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) 2025.

(2) Daw'r rheoliad hwn a rheoliad 3 i rym ar 31 Mawrth 2025.

(3) Daw rheoliad 2 i rym am 12:01 a.m. ar 1 Ebrill 2025.

**Diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020**

**2.**—(1) Mae Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020(**2**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2(1) (Dehongli)—

(**1**) 2006 p. 42.

(**2**) O.S. 2020/1073 (Cy. 241), a ddiwygiwyd gan O.S. 2024/1196 (Cy. 196); mae offerynnau diwygio eraill, ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(a) yn y diffiniad o "ffurflen bresgripsiwn electronig", ym mharagraff (b), yn lle "TPE" rhodder "presgripsiynau electronig",

(b) hepgorer y diffiniad o "gwasanaeth TPE",

(c) yn y lle priodol, mewnosoder—

"ystyr "meddyginiaeth a roddir ar bresgripsiwn yn unig" ("*prescription only medicine*") yw meddyginiaeth y cyfeirir ati yn rheoliad 5(3) (dosbarthiad cynhyrchion meddyginiaethol) o Reoliadau Meddyginiaethau Dynol 2012;", a

(d) yn y diffiniad o "presgripsiwn amlroddadwy", ym mharagraff (a)(ii), yn lle "TPE" rhodder "presgripsiynau electronig".

(3) Yn Atodlen 5—

(a) yn Rhan 2, yn y pennawd i baragraff 5A([1]) o flaen "rhestredig", ym mhob lle y mae'n digwydd, mewnosoder "offthalmig",

(b) yn Rhan 2, ym mharagraff 5A—

(i) yn lle "rhestredig", ym mhob lle y mae'n digwydd, rhodder "offthalmig rhestredig", gan dreiglo yn ôl yr angen;

(ii) yn is-baragraff (3)(a), yn lle "ym mharagraff" rhodder "yn is-baragraff", a

(iii) yn is-baragraff (5), yn lle "ym mharagraff" rhodder "yn is-baragraff";

(c) yn Rhan 2, ym mharagraff 9([2]), yn is-baragraff (8C)(b), hepgorer "yn uniongyrchol";

(d) yn Rhan 2, yn lle paragraff 20(4)([3]) rhodder—

"(4) Rhaid i fferyllydd GIG, mewn achosion priodol, gadw a chynnal cofnod o unrhyw gyngor a roddir ac unrhyw ymyriadau neu atgyfeiriadau a wneir (yn benodol ymyriadau o arwyddocâd clinigol) o dan y paragraff hwn.";

(e) yn Rhan 3, ym mharagraff 23(6B)([4]), yn lle "ym mharagraff" rhodder "yn is-baragraff".

---

(**1**) Mewnosodwyd paragraff 5A gan O.S. 2024/1196 (Cy. 196).
(**2**) Mewnosodwyd paragraff 9(8C)(b) gan O.S. 2024/1196 (Cy. 196).
(**3**) Amnewidiwyd paragraff 20(4) gan O.S. 2024/1196 (Cy. 196).
(**4**) Mewnosodwyd paragraff 23(6B) gan O.S. 2024/1196 (Cy. 196).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**Diwygio Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) (Diwygio) 2024**

**3.**—(1) Mae Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) (Diwygio) 2024(**1**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2(2), yn lle "2" rhodder "2(1)".

(3) Yn rheoliad 3—

(a) ym mharagraff (2), yn lle "rhestredig", ym mhob lle y mae'n digwydd, rhodder "offthalmig rhestredig", gan dreiglo yn ôl yr angen, a

(b) ym mharagraff (14)(a), yn lle "6(c)" rhodder "(6A)".

(4) Yn yr Atodlen—

(a) ym mharagraff 2, yn y diffiniad o "optometrydd cymhwysol" yn lle "Restr Gyfunol Offthalmig" rhodder "restr gyfunol", a

(b) ym mharagraff 3, yn rheoliad 4A(1) a fewnosodwyd, yn lle "Bydd optometrydd cymhwysol yn archebu" rhodder "Rhaid i optometrydd cymhwysol archebu".

*Jeremy Miles*
Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru
5 Mawrth 2025

(**1**) O.S. 2024/1196 (Cy. 196).